OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 789 (Cy. 80)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A449 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Gyfnewidfa Brynbuga, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Mawrth 2014* |
| *Yn dod i rym* | *25 Mawrth 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A449) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Mawrth 2014 a'i. enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A449 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Gyfnewidfa Brynbuga, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 21:00 o'r gloch ar 25 Mawrth 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” *(“the lengths* of *the trunk road”)* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyfnewidfa Coldra yn Ninas Casnewydd a Chyfnewidfa Brynbuga yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar hyd y gerbytffordd tua'r gogledd na’r gerbytffordd tua'r de ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gogledd ond, yn unol ag erthygl 8, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r de, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r de i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gogledd.

**5.** Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r de ond, yn unol ag erthygl 8, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r gogledd, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gogledd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r de.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedlo fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**Cymhwyso**

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Mawrth 2014

***R Morgan***
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1200 o fetrau i'r gogledd o isbont Abernant at bwynt 300 metr i'r gogledd o isbont Lôn Llwyna.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Beicwyr Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chyfnewidfa Coldra i'w chyffordd â Chyfnewidfa Brynbuga.

### ATODLEN 3
### Terfyn Cyflymder 50 mya dros dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1100 o fetrau i'r gogledd o isbont Abernant at bwynt 1650 o fetrau i'r gogledd o isbont Lôn Llwyna.